

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 19 (Cyfnewidfa
Llansanffraid Glan Conwy),
Bwrdeistref Sirol Conwy)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2021

The A55 Trunk Road (Junction 19
(Glan Conwy Interchange), Conwy
County Borough) (Temporary
Prohibition of Vehicles) Order
2021

Gwnaed 5 Ionawr 2021

Made 5 January 2021

Yn dod i rym 8 Ionawr 2021

Coming into force 8 January 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021 a daw i rym ar 8 Ionawr 2021.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 19 (Glan Conwy Interchange), Conwy County Borough) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2021 and it comes into force on 8 January 2021.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 8 Ionawr 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 Chester to Bangor trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 19:00 hours on 8 January

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A55 Caer i Fangor.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o brif gerbyttfyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy) sy'n ymestyn o drwyniad y ffyrdd ymadael hyd at drwyniad y ffyrdd ymuno.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

5 Ionawr 2021



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the main eastbound and westbound carriageways of the trunk road at Junction 19 (Glan Conwy Interchange) that extend from the nosing of the exit slip roads to the nosing of the entry slip roads.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only at such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

5 January 2021



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55
(CYFFORDD 19 (CYFNEWIDFA
LLANSANFFRAID GLAN CONWY),
BWRDEISTREF SIROL CONWY) (GWAHARDD
CERBYDAU DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy), Conwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darnau o brif gerbytyffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy) sy'n ymestyn o drwyniad y ffyrdd ymadael hyd at drwyniad y ffyrdd ymuno.

Y llwybr arall i draffig sy'n teithio tua'r dwyrain/tua'r gorllewin wrth Gyffordd 19 fydd ymadael â'r A55 ar y ffyrdd ymadael ac ailymuno â'r A55 ar y ffyrdd ymuno wrth yr un gyffordd.

Bydd y Gorchymyn yn dod i rym am 19:00 o'r gloch ar 8 Ionawr 2021 a disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol tan 07:00 o'r gloch ar 23 Ionawr 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 19 (GLAN CONWY INTERCHANGE), CONWY COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road at Junction 19 (Glan Conwy Interchange), Conwy.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the lengths of the main eastbound and westbound carriageways of the trunk road at Junction 19 (Glan Conwy Interchange) that extend from the nosing of the exit slip roads to the nosing of the entry slip roads.

The alternative route for eastbound/westbound traffic at Junction 19 is to leave the A55 via the exit slip roads and rejoin the A55 via the entry slip roads at the same junction.

The Order will come into force at 19:00 hours on 8 January 2021 and the temporary prohibition is expected to operate until 07:00 hours on 23 January 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government